




Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Adroddiad blynyddol sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol

Blwyddyn academaidd:
2019 i 2020



Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 30 33 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: [gwybodaeth@
gofalcymdeithasol.cymru](mailto:gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru)

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: [@GofCymdeithasol](https://twitter.com/GofCymdeithasol)

© 2021 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adfer neu ei throsglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylid anfon ymholiadau atgynhychu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

Cynnwys

1. Beth rydym ni'n ei wneud.....3
2. Dadansoddiad data.....5
3. Themâu monitro blynyddol.....19
4. Crynodeb Covid-19.....20

1. Beth rydym ni'n ei wneud

Rhan o rôl Gofal Cymdeithasol Cymru yw sicrhau bod y gweithlu gofal cymdeithasol wedi'i hyfforddi'n briodol ac yn addas i ymarfer, fel y gall y cyhoedd fod yn hyderus bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn hynod fedrus i wneud eu gwaith.

Gwyddom fod dysgu o ansawdd uchel yn paratoi ac yn cefnogi pobl fel bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r ymagwedd gywir at ymarfer. Fel rheoleiddiwr addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol yng Nghymru, rydym ni'n gosod ac yn hyrwyddo safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Caiff y rhain eu disgrifio yn *Y Fframwaith ar Gyfer y Radd Mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru 2018* a *Chymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2018*¹.

Yn ogystal, mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod nifer digonol o weithwyr cymdeithasol yn cael eu hyfforddi. Rydym yn gweithio gyda chyflogwyr a phrifysgolion i asesu faint o weithwyr cymdeithasol y bydd arnom eu hangen yn y dyfodol ac rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu faint o leoedd hyfforddi y bydd eu hangen.

Ein hymagwedd at reoleiddio addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol

Mae pum egwyddor sy'n sail i'n hymagwedd at reoleiddio addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol:

Cysondeb Rydym ni'n dehongli ac yn cymhwyso'r rheolau a'r gofynion sy'n gosod y safonau ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol proffesiynol yn gyson.

Tryloywder Mae gennym system dryloyw ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd rhaglenni. Byddwn yn rhannu canlyniad ein gweithgarwch rheoleiddio gyda darparwyr dysgu o fewn y cyfnodau penodedig ac yn cyhoeddi adroddiad sicrhau ansawdd blynyddol.

Ymrwymiad i welliant parhaus Bydd ein prosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar sut y gall rhaglenni cymeradwyo ddangos gwelliant parhaus ac ymrwymiad i wella ansawdd. Hefyd, byddwn yn adolygu'r prosesau rheoleiddio i sicrhau eu bod o hyd yn addas at y diben a'u bod yn adlewyrchu'r ymarfer gorau.

Cymesuredd Nid ydym am roi baich diangen ar ddarparwyr rhaglenni i fodloni gofynion rheoleiddio. I osgoi dyblygu gwaith, byddwn yn defnyddio systemau sicrhau ansawdd y rhaglenni eu hunain, lle y bo'n bosibl.

Cynwysoldeb Rydym ni'n cynnwys myfyrwyr, cyflogwyr, pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalwyr wrth sicrhau ansawdd rhaglenni gwaith cymdeithasol cymeradwy. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau pan fyddwn ni'n craffu ar raglenni.

1. Ar gael yn: gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/rheoleiddio-addysg-a-hyfforddiant-gwaith-cymdeithasol

Ein gwaith

Mae ein gwaith yn cynnwys cymeradwyo, monitro, adolygu ac arolygu rhaglenni ar lefelau cymhwyso ac ôl-gymhwyso. Rhaid darparu pob cwrs yn unol â safonau gofynnol, fel eu bod yn arwain at ymarferwyr hyderus a chymwys.

Ar hyn o bryd, rydym yn cymeradwyo:

- **8** o raglenni gradd gwaith cymdeithasol a ddarperir mewn **7** prifysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - **5** rhaglen israddedig (y mae un ohonynt yn llwybr dysgu o bell)
 - **3** rhaglen lefel meistr
- **12** rhaglen ôl-gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol.

Yn 2019-20, gwnaethom:

- gymeradwyo **1** rhaglen ôl-gymhwyso
- sicrhau ansawdd **19** rhaglen
 - gan osod **4** amod a gwneud **10** argymhelliad i raglenni ar lefel gymhwyso
 - gwneud **19** argymhelliad i raglenni ar lefel ôl-gymhwyso
- ymgymryd â **3** adolygiad cyfnodol yn cynnwys
 - **2** raglen gymhwyso
 - **1** rhaglen ôl-gymhwyso
- cael **7** cais yn gofyn am wneud mân addasiadau i raglenni er mwyn bodloni'r gofynion diwygiedig ar gyfer y radd gwaith cymdeithasol
- ni chawsom yr un gŵyn na rheswm dros gynnal ymchwiliad â ffocws
- cydlynu grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu canllawiau dysgu ymarfer penodol yn ymwneud â Covid-19.

I ymateb i'r pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau a osodwyd ledled y DU ym mis Mawrth 2020, cyflwynom lefel o hyblygrwydd i'r gofynion ar gyfer dyfarnu gradd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Gwnaethom hyn er mwyn sicrhau nad oedd myfyrwyr dan anfantais yn ormodol o ganlyniad i'r cyfnod eithriadol rydym ynddo. Seiliwyd ein penderfyniadau ar egwyddorion tegwch a chymesuredd, tra'n sicrhau nad oedd safonau cymhwysedd yn cael eu peryglu.

Cwblhaom ein gweithgarwch sicrhau ansawdd ar gyfer 2019-20 gan ddefnyddio platfformau cyfarfod ar-lein gan fod ymweliadau â rhaglenni wedi'u hatal.

2. Dadansoddiad data

Fel rhan o'n gwaith monitro blynyddol, rhaid i raglenni cymeradwy ddarparu gwybodaeth i ni am nifer o agweddau ar eu rheolaeth ar eu rhaglen a darpariaeth y rhaglen. Er bod hyn yn llywio ein gweithgarwch monitro blynyddol, mae'n caniatáu i ni hefyd sicrhau ein bod yn darparu digon o leoedd addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol i fodloni anghenion y gweithlu gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

a. Hyfforddiant cymhwys

Niferoedd derbyn

Yn 2019-20, cynigiodd rhaglenni cymhwys cymeradwy mewn gwaith cymdeithasol **312** o leoedd, a derbyniwyd **86 y cant** o'r lleoedd hynny. Roedd **269** o fyfyrwyr newydd, sef ychydig o gynnydd o gymharu â **260** o fyfyrwyr newydd y llynedd.

Mae **Ffigur 1** yn darparu dadansoddiad o'r lleoedd a dderbyniwyd fesul rhaglen, gyda data cymharol ar gyfer y tair blwyddyn academaidd ddiwethaf.

Ffigur 1

| Niferoedd derbyn rhaglenni cymhwys gwaith cymdeithasol | | | | | | | | | | |
|---|----------------------------|--------------------|------------|----------------------|--------------------|------------|----------------------|--------------------|------------|----------------------|
| Rhaglen | Llwybr | 2017-18 | | | 2018-19 | | | 2019-20 | | |
| | | Lleoedd cymera-dwy | Llen-wyd | % y lleoedd a lenwyd | Lleoedd cymera-dwy | Llen-wyd | % y lleoedd a lenwyd | Lleoedd cymera-dwy | Llen-wyd | % y lleoedd a lenwyd |
| MA Prifysgol Bangor | 2 flynedd llawn amser | 21 | 19 | 90% | 22 | 22 | 100% | 21 | 15 | 71% |
| MA Prifysgol Caerdydd | 2 flynedd llawn amser | 50 | 40 | 80% | 50 | 48 | 96% | 50 | 38 | 76% |
| Swansea University MSc | 2 flynedd llawn amser | 20 | 20 | 100% | 20 | 19 | 95% | 20 | 20 | 100% |
| LI Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 2 flynedd llawn amser | 39 | 29 | 74% | 39 | 25 | 64% | 39 | 30 | 77% |
| LI Prifysgol Metropolitan Caerdydd / Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | 3 flynedd llawn amser | 16 | 15 | 94% | 16 | 16 | 100% | 16 | 15 | 94% |
| LI Prifysgol Glyndŵr | 2 flynedd llawn amser | 36 | 33 | 92% | 36 | 35 | 97% | 36 | 33 | 92% |
| LI Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 3 i 6 mlynedd dysgu o bell | 40 | 40 | 100% | 48 | 46 | 96% | 65 | 60 | 92% |
| LI Prifysgol Abertawe | 3 flynedd llawn amser | 30 | 29 | 97% | 30 | 30 | 100% | 30 | 30 | 100% |
| LI Prifysgol De Cymru | 3 flynedd llawn amser | 35 | 26 | 74% | 35 | 19 | 54% | 35 | 28 | 80% |
| Cyfanswm | | 287 | 251 | 87% | 296 | 260 | 88% | 312 | 269 | 86% |

Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y niferoedd derbyn i'r radd mewn gwaith cymdeithasol, gan gynnwys:

- nifer yr ymgeiswyr a'u safon
- meini prawf dewis
- gallu partneriaid y rhaglen i ddarparu cyfleoedd dysgu ymarfer
- y niferoedd cymeradwy rydym ni'n eu gosod.

I raddau helaeth, mae'r cynnydd yn nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael i fyfyrwyr dros y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf wedi digwydd o ganlyniad i gynnydd yn nifer y myfyrwyr y mae cyflogwyr yn eu hanfon ar secondiad fel rhan o gynlluniau 'tyfu'ch hun' i ddatblygu'r gweithlu, trwy lwybr dysgu o bell.

Proffil demograffig myfyrwyr gwaith cymdeithasol

Mae Ffigur 2 yn cynnig trosolwg o'r data demograffig sydd gennym am y myfyrwyr gwaith cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda ni. Mae'n cymharu'r tair carfan ddiweddaraf o fyfyrwyr.

Ffigur 2

| Categori | Carfan 2017-18 | Carfan 2018-19 | Carfan 2019-20 |
|------------------------------|----------------|----------------|----------------|
| Oedran cyfartalog | 32 oed | 31 oed | 32 oed |
| Rhywedd | | | |
| Benywaidd | 88.4% | 86% | 84.8% |
| Gwrywaidd | 11.6% | 14% | 15.2% |
| Ethnigrwydd | | | |
| Lleiafrifoedd ethnig | 6.4% | 6.5% | 5.5% |
| Gwyn | 93.6% | 93.6% | 94.5% |
| Anabledd | 3.8% | 3.4% | 4.5% |
| Cyfeiriadedd rhywiol | | | |
| Heterorywiol | 95.9% | 93.4% | 95.6% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 2.8% | 4.3% | 2.6% |
| Deurywiol | 1.2% | 2.3% | 1.8% |
| Gallu o ran y Gymraeg | | | |
| Ychydig/rhugl | 52.1% | 52.1% | 55.1% |
| Dim | 47.9% | 47.9% | 44.9% |

Mae proffil demograffig myfyrwyr gwaith cymdeithasol wedi bod yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n galonogol bod nifer y dynion sy'n ymgymryd â hyfforddiant gwaith cymdeithasol wedi codi **3.6 y cant** dros y tair carfan ddiwethaf o fyfyrwyr. Yn ogystal, mae canran y myfyrwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg neu'n gallu defnyddio rhywfaint o Gymraeg wedi cynyddu **3 y cant** o gymharu â ffigur y llynedd.

Mae data cymharol ar gyfer y boblogaeth ehangach o fyfyrwyr yng Nghymru yn dangos roedd **56 y cant** o fyfyrwyr yn 2018-19 yn fenywaidd a **44 y cant** yn wrywaidd. O'r rhain, roedd **88 y cant** o fyfyrwyr o ethnigrwydd gwyn, gyda **12 y cant** o grwpiau ethnig eraill. Roedd yn hysbys bod gan **15 y cant** o fyfyrwyr anabledd².

Mae'n bwysig ein bod yn cynyddu amrywiaeth y gweithlu gofal cymdeithasol yn y dyfodol fel ei fod yn adlewyrchu'r boblogaeth a'r dinasyddion y mae'n gweithio gyda nhw'n briodol. Yn 2019, lansiom ymgyrch denu a recriwtio cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. O fis Tachwedd 2020 ymlaen, bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar rolau ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwaith cymdeithasol.

Rydym yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i wneud yn siŵr ein bod yn hyrwyddo gwaith cymdeithasol fel gyrfa o ddewis ac yn annog mwy o amrywiaeth ymhlith y bobl sy'n gwneud cais am hyfforddiant cymhwyso mewn gwaith cymdeithasol, a hynny mewn modd cysylltiedig. Gallwch ddod o hyd i enghreifftiau o'r gwaith hyd yn hyn ar [wefan Gofalwn Cymru](#).

² Ystadegau Myfyrwyr Addysg Uwch: DU 2018/19 – Niferoedd a nodweddion myfyrwyr | HESA (Saesneg yn unig)

Cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant cymhwyso

Rydym yn cefnogi addysg a hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol sy'n cymhwyso trwy gynnig cymorth ariannol fel a ganlyn:

- grant datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol sy'n cael ei dalu i bartneriaethau rhanbarthol. Dwy o saith blaenoriaeth genedlaethol y grant yw ariannu hyfforddiant cymhwyso ac ôl-gymhwyso gweithwyr cymdeithasol
- cyllid ar gyfer cyfleoedd dysgu ymarfer sy'n cael ei dalu i awdurdodau lleol sy'n croesawu myfyrwyr
- grant i hyrwyddo a galluogi pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalu, i gymryd rhan mewn addysg gweithwyr cymdeithasol
- bwrsariaethau a lwfans teithio i helpu rhai myfyrwyr i astudio yng Nghymru.

O'r 269 o fyfyrwyr sydd newydd eu cofrestru, rhoddom fwrsariaethau i 194 o fyfyrwyr. Nid oedd gweddill y myfyrwyr yn gymwys i gael bwrsariaeth oherwydd:

- roedd eu cyflogwr yn eu cefnogi'n ariannol
- roeddent o'r tu allan i Gymru
- roeddent yn ailadrodd astudiaethau'r flwyddyn gyntaf.

Mae Ffigur 3 yn darparu gwybodaeth am neilltuo bwrsariaethau ar gyfer y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Ffigur 3

| | Neilltuo bwrsariaethau 2018-19 | | Neilltuo bwrsariaethau 2019-20 | |
|-------------------------|--------------------------------|----------------------|--------------------------------|----------------------|
| | Cyfanswm bwrsariaethau | Bwrsariaethau newydd | Cyfanswm bwrsariaethau | Bwrsariaethau newydd |
| | 492 | 199 | 478 | 194 |
| Gradd israddedig | 339 | 118 | 331 | 128 |
| Canran | 68.9% | 59.3% | 69.2% | 66.0% |
| Meistr | 153 | 81 | 147 | 66 |
| Canran | 31.1% | 40.7% | 30.8% | 34.0% |

Gostyngodd canran y bwrsariaethau a dalwyd i fyfyrwyr gradd meistr **6.7 y cant** yn 2019-20 o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr a dderbyniwyd i ddau o'r rhaglenni meistr. Yn ôl adborth, rhesymau ariannol oedd un o'r prif broblemau i fyfyrwyr nad oeddent wedi gallu bwrw ymlaen ag astudiaethau ôl-raddedig. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru am y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ôl-raddedig.

Dysgu ymarfer

Darperir hyfforddiant cymhwysu mewn gwaith cymdeithasol trwy bartneriaeth rhwng y sefydliad addysg uwch, awdurdodau lleol, cynrychiolwyr cymunedol – gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalwyr – a phartneriaid eraill. Mae dull dysgu cyfunol yn gysylltiedig â'r radd gwaith cymdeithasol, gyda **50 y cant** o ddysgu'r myfyriwr yn digwydd mewn lleoliad academiaidd a **50 y cant** mewn ymarfer.


O ystyried dull cymysg hyfforddiant cymhwysu, sy'n academiaidd ac yn seiliedig ar ymarfer, mae partneriaethau effeithiol yn hanfodol. Mae pob prifysgol mewn partneriaeth ag o leiaf dri awdurdod lleol ac mae pob awdurdod lleol mewn partneriaeth ag o leiaf un brifysgol.

Mae dysgu ymarfer yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu ac ymarfer eu cymhwysedd wrth gyflawni tasgau gwaith cymdeithasol ac mae'n asesu'r cymhwysedd hwnnw. Mae gwaith cymdeithasol yng Nghymru yn broffesiwn amrywiol sy'n cael ei ddarparu gan amrywiaeth o leoliadau, felly mae'n bwysig bod cyfleoedd dysgu ymarfer yn berthnasol ac yn cynrychioli'n fras y man lle mae'r gwaith cymdeithasol yn digwydd.

Yn 2019-20, darparwyd **597** o gyfleoedd dysgu ymarfer. Mae **Ffigur 4** yn amlinellu'r ddarpariaeth cyfleoedd dysgu ymarfer fesul sector ar draws tair lefel yr hyfforddiant cymhwysu. Mae nifer cymharol isel y cyfleoedd dysgu ymarfer Lefel 1 oherwydd:

- bod rhai rhaglenni'n cyfuno gofynion dysgu ymarfer Lefel 1 a 2 mewn un cyfle dysgu ymarfer
- bod opsiwn i fyfyrwyr dysgu o bell ymgymryd â llwybr portffolio i ddangos cymhwyseddau Lefel 1.

Ffigur 4




Mae ein rheolau yn mynnu bod pob myfyriwr yn cyflawni o leiaf un o'r cyfleoedd dysgu ymarfer hwy (Lefel 2 a Lefel 3) yng ngwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei dangos yn **Ffigur 4** yn dangos bod y gofyniad hwn yn parhau i gael ei gyflawni gan bartneriaethau rhaglenni.

Hefyd, mae'n bwysig bod myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth o waith y sectorau gwirfoddol ac annibynnol, a'r ymagweddau gwahanol at weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau. Mae'r tabl yn dangos mai mewn sefydliadau annibynnol / sefydliadau'r sector gwirfoddol yr oedd **48 y cant** o'r cyfleoedd dysgu ymarfer a ddarparwyd ar Lefel 1, gyda **23 y cant** yn cael eu cynnig ar Lefel 2 a **10.5 y cant** ar Lefel 3.

Mae **Ffigur 5** yn rhoi dadansoddiad o'r cyfleoedd dysgu ymarfer a ddarparwyd yn ôl lleoliad gwasanaeth.

Ffigur 5




O ran lleoliad y gwasanaeth, mae'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd dysgu ymarfer hwy yn digwydd mewn timau gwaith cymdeithasol. Mae'r patrwm hwn yn debyg i'r llynedd ac mae'n adlewyrchu llwyddiant parhaus timau gwaith cymdeithasol o ran darparu lleoliadau i fyfyrwyr Lefel 2 a Lefel 3.

Amlygodd adroddiad *Cynllunio Gweithlu Gweithwyr Cymdeithasol 2018-19*³ fod **65 y cant** o'r **161** o weithwyr gofal cymdeithasol newydd gymhwyso a ymunodd â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi mynd i wasanaethau plant a bod **35 y cant** wedi ymuno â gwasanaethau oedolion.

3. *Cynllunio Gweithlu Gweithwyr Cymdeithasol 2017-18* | Uned Data Llywodraeth Leol – Cymru.
Ar gael ar: gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/adroddiadaur-gweithlu

Mae **Ffigur 6** yn dangos y ddarpariaeth cyfleoedd dysgu ymarfer yn ôl maes gwasanaeth a bod cynrychiolaeth dda ar Lefelau 2 a 3 o gyfleoedd am leoliadau mewn gwasanaethau plant. Hefyd, mae'r ddarpariaeth lleoliadau ar draws gwasanaethau oedolion a phlant ar gyfer y ddwy garfan hyn o fyfyrwyr yn gymesur.

Ffigur 6

Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'n rhaid bod gan bob rhaglen gynllun gweithredu'r Gymraeg i hyrwyddo a gwreiddio cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu a chael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Ffigur 7 yn amlygu nifer y myfyrwyr a astudiodd bum credyd academaidd neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2018-19, ac ym mha brifysgolion y gwnaethant eu hastudio.

Ffigur 7

| Prifysgol | 5+ credyd wedi'u hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg | 40+ credyd wedi'u hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg |
|--------------------------|--|---|
| Bangor | Blwyddyn 1: 15 Blwyddyn 2: 21 | Blwyddyn 1: 15 Blwyddyn 2: 21 |
| Abertawe | 149* | 94 |
| Y Brifysgol Agored | 95 | 0 |
| Ffynhonnell: HESA | *Cwblhaodd myfyrwyr fodiwl e-ddysgu Gwaith Cymdeithasol – Ymwybyddiaeth Iaith (MOOC) fel rhan o fodiwl dysgu mwy | |

Yn ogystal â Phrifysgol Bangor, sy'n cynnig cyfle i fyfyrwyr wneud eu hyfforddiant cymhwysu mewn gwaith cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg, mae myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Brifysgol Agored bellach yn gallu cwblhau cam 1 eu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfraddau gadael rhaglenni

Mae cyfraddau gadael rhaglenni yn isel. Ar draws pob lefel hyfforddiant, fe wnaeth **5 y cant** o fyfyrwyr (cyfanswm o **42**) adael y cwrs a'r Gofrestr rhwng Medi 2019 ac Awst 2020. Mewn cymhariaeth, mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos nad yw **6.8 y cant** o fyfyrwyr ar draws holl brifysgolion Cymru yn parhau gyda'u hastudiaethau⁴.

Mae **Ffigur 8** yn dangos faint o fyfyrwyr adawodd eu cwrs yn ystod 2019-20 a'r rheswm pam.

Ffigur 8

| Rheswm dros adael | Nifer |
|----------------------|-----------|
| Academaidd | 5 |
| Ymddygiad/Addasrwydd | 2 |
| Iechyd | 9 |
| Personol | 26 |
| Cyfanswm | 42 |

4. Peidio â pharhau: Dangosyddion Perfformiad y DU 2017/18 | HESA (Saesneg yn unig)

Addasrwydd i ymarfer

Rhaid i raglenni rhoi gwybod i ni pan fydd problemau addasrwydd i ymarfer yn codi a bod angen ymchwilio iddynt. Yn 2019-20, atgyfeiriwyd 5 myfyriwr i ni o dan ein rheolau addasrwydd i ymarfer. Mae hwn yn ostyngiad sylweddol o gymharu ag 19 y flwyddyn gynt. O'r 5 atgyfeiriad, cafodd 3 ohonynt eu cau yn dilyn ymchwiliad cychwynnol, gydag 1 myfyriwr yn cael rhybudd gan swyddog addasrwydd i ymarfer, tra bod 2 achos o hyd yn destun ymchwiliad.

Y rhesymau dros yr atgyfeiriadau oedd:

- agwedd / ymddygiad (2)
- torri ymddiriedaeth (1)
- torri cyfrinachedd (1)
- euogfarn / rhybuddiad (1)
- ffiniau proffesiynol (1)
- crebwyll proffesiynol (2)
- camddefnyddio adnoddau cwmni (1).

**Roedd rhai atgyfeiriadau'n cynnwys mwy nag un honiad am y myfyriwr*

Mae aelodau'n tîm addasrwydd i ymarfer yn ymweld â phob rhaglen radd fel rhan o gyflwyniad myfyrrwyr i hyfforddiant cymhwyso ac maent yn cynnal mwy o weithdai os gofynnir amdanynt. Mae adborth gan y prifysgolion yn amlygu pa mor ddefnyddiol yw'r sesiynau hyn o ran datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth myfyrrwyr o'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*, ynghyd ag ymddygiad ac ymarweddiad proffesiynol.

b. Hyfforddiant ôl-gymhwyso

Rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol gwblhau 90 awr o hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru ym mhob cyfnod cofrestru i gynnal eu cofrestrriad proffesiynol. Mae'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* yn datgan bod rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol "bod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau"⁵.

Cynnal hyfforddiant ôl-gymhwyso wedi'i reoleiddio yw un ffordd o fodloni'r gofynion hyn.

Mae gennym 12 rhaglen ôl-gymhwyso gymeradwy yng Nghymru, sy'n cynnwys:

- 5 rhaglen hyfforddiant cymhwyso'n aseswr ymarfer
- 1 rhaglen Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy
- 1 rhaglen datblygu rheolwr tîm
- 5 rhaglen Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP) yn cynnwys:
 - 2 Rhaglen Gadarnhau
 - Rhaglen Ymarfer Profiadol mewn Gwaith Cymdeithasol
 - Rhaglen Uwch Ymarfer mewn Gwaith Cymdeithasol
 - Rhaglen Gwaith Cymdeithasol Ymgynghorol.

Yn ôl y data a gawsom fel rhan o fonitro blynyddol rhaglenni cymeradwy, cofrestrodd tua 552 o weithwyr cymdeithasol ar raglenni ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018-19. Roedd hyn yn cynnwys y rheini a oedd yn ymgymryd â modiwlau dysgu unigol, ynghyd â'r rheini wedi cofrestru ar raglenni llawn.

Rhaglenni DAPP

Fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus, mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso ar ôl 1 Ebrill 2016 gwblhau Rhaglen Gadarnhau yn llwyddiannus yn ystod eu cyfnod cofrestru cyntaf wrth weithio fel gweithiwr cymdeithasol. Mae ymgymryd â'r Rhaglen Gadarnhau yn elfen hanfodol o fframwaith *Y Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer*⁶. Hefyd, mae'r rhaglen o fudd i'r rheini sy'n dychwelyd i ymarfer ar ôl saib neu i weithwyr cymdeithasol sy'n gweithio yn y DU am y tro cyntaf.

Yn 2018-19, cofrestrodd **272** o ymgeiswyr ar y Rhaglenni Gadarnhau, gyda **195** ohonynt yn cwblhau eu rhaglen astudio yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod hwn a **5** myfyriwr yn methu'r rhaglen. Yn unol â rheoliadau academaidd, cafodd y myfyrwyr hyn gyfleoedd adfer pellach.

Yn y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, cynhaliwyd **49** cynhadledd achos cofrestru ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a oedd heb gwblhau'r Rhaglen Gadarnhau mewn pryd i adnewyddu eu cofrestriad. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros fethu ei chwblhau oedd absenoldeb mamolaeth, methu sicrhau gwaith fel gweithiwr cymdeithasol yn syth ar ôl cymhwyso a newidiadau mewn cyflogaeth. Ym mhob achos, caniatwyd adnewyddu, gydag argymhelliad y dylid cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus o fewn amserlen osodedig.

Cafodd y tair rhaglen arall sy'n llunio rhan o fframwaith DAPP eu comisiynu am gyfnod pum mlynedd ac mae'r comisiwn hwn bellach wedi dod i ben. Mae'r rhaglenni hyn bellach mewn cyfnod 'cwblhau addysgu', gyda bach iawn o fyfyrwyr yn weddill i gwblhau.

Trefnom werthusiad hydredol annibynnol o fframwaith DAPP a daeth hwn i ben yn 2019. Dyma grynodedeb o'i ganfyddiadau:

- bod fframwaith DAPP yn cynnig llwybr unigryw o weithgareddau wedi'u strwythuro'n glir, a wnaed yn bwrpasol ar gyfer y proffesiwn y mae'r fframwaith yn ei wasanaethu
- teimlai'r rhai a gymerodd ran fod rhaglenni DAPP yn cynnig rhaglenni â chynnwys o ansawdd uchel, wedi'u teilwra'n dda, a oedd yn berthnasol i ymarfer proffesiynol o ddydd i ddydd ac a oedd yn cynnig potensial i arbenigo wrth iddynt symud ymlaen yn eu dysgu
- bod ymgymryd â'r rhaglenni'n gwneud cyfraniad cadarnhaol a pharhaus at welliannau yn nealltwriaeth, sgiliau a hyder gweithwyr cymdeithasol
- bod ymrwymiad yr amser i weithwyr cymdeithasol gymryd rhan mewn rhaglen DAPP yn cael ei ystyried yn hynod uchelgeisiol, gyda phartneriaid yn dweud mai dyma un o'r rhwystrau rhag ymgymryd â lleoedd a chyfraddau gadael uchel
- adroddodd partneriaid fod beichiau gwaith proffesiynol mawr gweithwyr cymdeithasol, ynghyd ag anhyblygrwydd a brys llawer o'r gwaith hwn, yn cyfyngu ar allu gweithwyr cymdeithasol i gymryd rhan mewn rhaglen DAPP: o ran cymryd rhan yn y lle cyntaf a dal ati i gymryd rhan yn barhaus
- amlygodd gweithwyr cymdeithasol fod gofynion hyfforddi eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer eu rolau hefyd yn cyfyngu ar faint o amser oedd ar gael ganddynt ar gyfer DAPP
- trwy gydol y gwerthusiad, mae Gofal Cymdeithasol Cymru a'i bartneriaid wedi dangos eu gallu i ymateb i adborth y rhai sy'n ymwneud â fframwaith DAPP er mwyn parhau i wella ansawdd y rhaglenni.

6. *Y Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer* | Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru

Ar gael ar: gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/cymwysterau-gwaith-cymdeithasol#section-936-anchor

Mae adolygiad o'r dyfarniadau ôl-gymhwyso sydd ar gael i weithwyr cymdeithasol yn mynd rhagddo a disgwylir i hwn gael ei gwblhau yn ystod 2020-21. Bydd hyn yn cyfrif am y gwaith paratoi y mae ei angen i roi'r Trefniadau Diogelu Amddiffyn Rhyddid ar waith o Ebrill 2022 ymlaen, a chyflwyno rôl newydd y Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy.

Mae'r adolygiad o ddysgu ôl-gymhwyso yn llunio rhan o gynllun gwaith ehangach ar anghenion gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru o ran y gweithlu.

3. Themâu monitro blynyddol

Mae ein gwaith monitro blynyddol yn mesur sut mae'r ddarpariaeth addysg gwaith cymdeithasol yn cyflawni o gymharu â chyfres o ddangosyddion i asesu cryfderau a risgiau posibl mewn rhaglenni penodol. Dyma'r dangosyddion hyn:

- mae'r rhaglen yn bodloni safonau cyhoeddus⁷
- mae'r rhaglen yn parhau i ddatblygu a chanolbwyntio ar wella
- cael a defnyddio systemau gwerthuso a chraffu
- hyder myfyrwyr a phartneriaid.

Gall ein hadborth i raglenni gynnwys:

- gosod **amodau** i sicrhau bod rhaglenni'n parhau i fodloni ein gofynion ar gyfer cymeradwyo
- gwneud **argymhellion**, sy'n cyfrannu at well ansawdd rhaglenni.

Fel rhan o'n gweithgarwch monitro blynyddol ar gyfer 2019-20, gosodom **4** amod a gwneud **10** argymhelliad i raglenni gradd cymhwyso cymeradwy. Hefyd, gosodom **19** argymhelliad i raglenni ôl-gymhwyso cymeradwy.

Roedd yr amodau a osodom yn cyfeirio at weithgarwch aiddilysu'r rhaglen a bodloni rheolau cymeradwyo wrth wneud addasiadau penodol i raglenni. Hefyd, cydnabuwyd effaith y pandemig Covid-19 ar weithredu rhai newidiadau i fodloni gofynion diwygiedig y radd, a gosodwyd amserlenni newydd.

Roedd yr argymhellion a wnaethom yn cynnwys:

- rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i gynlluniau wrth gefn oherwydd Covid-19
- diweddarau canllawiau a gwybodaeth i fyfyrwyr mewn llawlyfrau rhaglenni
- dweud wrthym am ganlyniad adolygiadau a phrosiectau a gwella ansawdd.

Gofynnem i raglenni ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r monitro blynyddol erbyn dyddiad gosod neu i ddarparu tystiolaeth benodol yn ystod y cylch monitro blynyddol nesaf.

⁷ Caiff y rhain eu grwpio o dan weithio mewn partneriaeth, darpariaeth adnoddau, dysgu ac asesu, polisiau a gweithdrefnau, a sicrhau ansawdd.

4. Crynodeb Covid-19

Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ddysgu myfyrwyr yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Roedd mwyafrif y myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar leoliad pan osodwyd cyfyngiadau ar draws y DU, gydag eraill ar fin dechrau lleoliad yn ystod y misoedd i ddilyn.

Buom yn gweithio gyda rhaglenni i sicrhau nad oedd yr argyfwng hwn yn gosod myfyrwyr dan anfantais ormodol a chyflwynom hyblygrwydd i'n rheolau a'n gofynion sy'n rheoli'r radd gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Roedd hyn yn caniatáu i'r myfyrwyr symud ymlaen a chwblhau eu hastudiaethau ar amser, cyhyd â phosibl, lle'r oeddent wedi cyrraedd safonau cymhwysedd.

Hefyd, effeithiwyd ar rai rhaglenni ôl-gymhwyso ag elfen o ddysgu ymarfer, a gwnaed darpariaeth debyg ar gyfer yr ymgeiswyr hyn.

Bu'n rhaid i bob rhaglen addasu i ddarparu addysgu a chymorth dysgu drwy blatfformau dysgu ar-lein ac mae dull dysgu cyfunol wedi parhau i mewn i flwyddyn academaidd 2020-21. Bu angen i leoliadau sydd wedi parhau yn ystod y cyfnod hwn, neu'r rhai sydd wedi aildechrau, ystyried trefniadau gweithio rhithwir newydd. Bu'n rhaid iddynt hefyd ymateb i faterion fel llesiant a chymorth myfyrwyr, gweithgareddau dysgu priodol ac ymagweddau at asesu. Mae'r cyfleoedd dysgu ymarfer hyn wedi galluogi'r myfyrwyr i ddatblygu'n ymarferwyr cymwys yn ddigidol – sef set sgiliau bwysig ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae'r angen am gyflwyno lefel o hyblygrwydd i'n rheolau er mwyn i ni allu ymateb yn briodol i'r argyfwng iechyd cyhoeddus hwn wedi amlygu nad yw hwn yn faes y mae ein safonau presennol yn mynd i'r afael ag ef. Felly, byddwn yn cynnal adolygiad 'ysgafn' o'n rheolau yn 2020-21 i fynd i'r afael â hyn.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhaglenni cymeradwy i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i ymateb i unrhyw ddatblygiadau pellach o ran Covid-19. Rydym am i fyfyrwyr gael y cyfle gorau i ddysgu a datblygu fel gweithwyr cymdeithasol proffesiynol yn ystod yr argyfwng hwn, gan flaenoriaethu eu hiechyd, eu llesiant a'u diogelwch.